

18 Hen arferion a chwaraeon

Cyflym ddarfod o'r tir y mae yr hen arferion, ac un o'r rheini oedd "Canu carolau." Byddai y cantorion wedi bod yn paratoi ers wythnosau i ddysgu y "Garol". I hwyluso'r peiriannau llafar ceisient driagl, ac yn hwyrnos y 24 o Ragfyr, byddent yn ei ferwi ac yna galwent ef yn "gyflaith". Aeth hyn yn arferiad cyffredinol, fel y byddai gan y gwrandawyr yn ogystal a'r carolwyr eu papureidiau o gyflaith. Ond bore y 25ain o'r mis yn blygeiniol iawn, tua 2 neu 3 o'r gloch, gwelid pobl lawer yn ymlwybro tua'r eglwys, ac yn fuan gellid gweled a chlywed rhyw ddau neu dri yn canu carol y plygain, am tua ugain munud neu hanner awr. Yna deuai cwmni bach arall i gymryd eu lle, ac felly ymlaen hyd tua 6 yn y bore, pryd y deuai y rheithor i mewn; yna ciliai y gynulleidfa hir-ymprydol allan yn lladradaidd o un i un, gan adael rhyw ychydig ar ôl i wrando ar yr offeiriad yn darllen y llithoedd.

Mynnai direidi ei ddangos ei hun ynglŷn â gwneud cyflaith. Yn aml byddai llanciau yn bwrw tywyrch ("torchins") i lawr y /188/simnai i'r crochan a gynhwysai'r cyflaith, neu ynteu yn ei ladrata wedi i'r cwmni ei roddi allan i oeri cyn ei wneuthur yn rholiau.

Ar nos Calan (Ionawr) deuai pobl ieuainc at eu gilydd i wneuthur miogod - teisennau teneuon, tebyg iawn i "deisen 'Berffro," ond defnyddid wyau i'w cymysgu. Rholbrennid y toes yn denau, denau, a thorrid ef mewn gwahanol ffurfiau. Arferai un hen wraig yn Niwbwrch ei dorri yn ffurf ceiliog, a rhoddia on "currant" fel llygad ynddo.¹

Arferiad arall oedd rhedeg am ddarn o'r deisen briodas. Cyn gynted ag y byddai'r person wedi cyhoeddi'r ddeuddyn ieuanc yn Èr a gwraig, rhuthrai nifer o'r rhai oedd yn bresennol yn yr eglwys, am y cyntaf i dŷ'r wledd gyda'r newydd fod y pâr ieuanc yn Èr a gwraig. Yn gyffredin byddai yr ymdrechfa yn un galed. Rhedai rhai yn bennoeth, eraill yn nhraed eu 'sanau, a'r llanc a gyrhaeddai'r tŷ gyntaf a dderbynai "deisen briodas". Dywedid y byddai llawer llanc yn yfed finegr yn aml am ddyddiau cyn rhedeg y râs, er mwyn cadw ei wynt yn well!

Bob bore Sulgwyn arferid rhannu llefrith (gan y rhai a oedd ganddynt wartheg) gyda'r rhai tlotach, er mwyn i bawb gael bara llefrith i frecwast fore'r Sulgwyn. Gwneid peth cyffelyb hyd yn ddiweddar yng ngorllewin y Werddon; tybir mai arferiad Pabyddol ydyw.

Cynhaliwyd gwylnos yn Niwbwrch bron i ddiwedd y ganrif ddiwethaf,² h.y. fe â'i ychydig bobl i gynnal cyfarfod gweddi yn nhŷ'r ymadawedig y noson o flaen yr angladd. Pan fyddai'r tŷ yn fychan a'r dyrfa yn fawr, byddai merched yn cael gwasgfeuon, a chreid cryn ystêr yno.

Hyd heddiw yn Niwbwrch, mae'n arferiad i'r plant fyned o gwmpas i glepian wyau tua'r Pasg ac ar eu ffordd o'r ysgol brynhawn Mawrth Ynyd fe ganant

"Mae ngheg i'n grimpin am y gram-pog,
Mae mam yn rhy dlawd i brynu blawd
A 'nhad yn rhy ddiog i weithio."

Byddai'r ieuencid yn cael mwynhad mawr gyda'i chwaraeon dyddiau a fu.³ Ar ddiwrnod gwyntog, gwelid amgylchoedd Pwll y pentref yn llawn o blant, fychain a mawrion, yn "nofio" eu cychod pluog a'u llongau hwyliâu bychain, mewn ffug ymrysonfeydd, er difyrrwch i laweroedd heblaw y plant a gymerai ran yn yr arddangosiadau. Oddeutu 1850, caewyd y "Pwll mawr" gan Richard Roberts, Dywades, er na wyddis i fodlonrwydd paham y caniatwyd iddo wneud, ac ychwanegwyd y lle at gae sydd o flaen adeilad Sefydliad Prichard-Jones yn awr ac ar yr ochr arall i'r ffordd fawr.

/189/Digwyddai chwaraeon y pentref yn gyfnodol; yr un chwaraeon a ddilynai yr amserau o flwyddyn i flwyddyn. Tua'r Nadolig byddai mwy nag un math o chwarae. Mewn cae cyfleus chwaraeid euro "bandi". Rhyw fath o "golf" ydoedd. Defnyddid ffon a'i phen ar ffurf "L"; dodid darn o bren cyfleus ar lawr, a tharewid ef mewn dull celfydd nes ei yrru i bellter mawr. Gelwid y ffon yn "trap", y darn pren yn "bandi", a'r chwarae yn "trapio" neu chwarae "bandis."

Chwarae arall oedd math ar ddywaded criced; ond yn lle y *bat* a'r wicedi, defnyddid ffyn geirwon wedi eu brys-ddarparu i wasanaeth am y tro. Gwneid dau dwll ryw ddeu-rwd oddiwrth eu gilydd, a wylid gan ddau gyd-chwaraewr. Safai dan eraill, neu ychwaneg, o'r tu ôl i ddau wylwr y tyllau. Yr oedd un o'r rhain gyda ffon fechan lled ysgafn o 15 i 18 modfedd o hyd, a thafalai hi at y gwyliwr cyferbyniol a geisiai yntau ei tharo nes ei myned yn ddigon pell i'r ddau wylwr y tyllau redeg a newid gorsafau. Os gellid, rhedai y ddau i newid fwy nag unwaith a chyfrifid pob rhedegfa yn *un*. Os methai y chwaraewr a tharo y ffon dafl, neu y ffon *gais* fel y gelwid hi gan rai, ni fyddai hynny yn goll nac yn ennill i neb; ond cymerai y taflydd arall y ffon i'w thafllu at wylwr y pen arall. Yr hyn a wna i'r ochr golli oedd i'r ffon *gais* gael ei dal ar ôl ei tharo gan dafllydd, neu gyd-chwaraewr; neu, os ar ôl gafael ynddi y byddai i'r ceisydd redeg yn gyflym a gallu meddiannu y pen gwag cyn i un o wîr y ffyn gyrraedd y lle ar ôl newid y pen. Er mor syml y chwarae, yr oedd mor adfywiol a chwarae criced, a heb un math o berygl ynglŷn ag ef.

Nid felly y byddai gyda chwarae saethu y Nadolig. Ar adegau deuai gof i'r pentref gyda *set* o heyrn tân, o waith "gof cartref," feallai. Buan y gwneid yn hysbys reolau yr ymrysonfa, sef hyn a hyn am gael cyfleustra i saethu at y marc. Ar adegau felly, disgwylid i'r ymgeisydd ddwyn ei belennau gydag ef. Oni ddeuai rhywun â rhywbeth i ymgeisio am dano, byddai i amryw ymryson am y wobr wag. Ai eraill i geisio saethu adar gwylltion o unrhyw fath.

¹ *Hanes Mon*, gan E.A.W. tt. 323-4

² Bûm mewn gwylnos debyg i hon yn Rhedyn-coch-bach tua 1888.

³ Yr wyf yn ddyledus i Lawysgrifau Owen Williamson am y rhan fwyaf o'r adran hon ar "Chwaraeon".

Nid oedd cicio y bêl droed yn un o chwaraeon yr ardal yn yr hen amser. Ond yr oedd chwarae pêl arall yn boblogaidd iawn ymhlith rhai dosbarthiadau. Paratoid pêl o edafedd wlân gyda swm o *india-rubber* o'i mewn, a gwisg o ledr ystwyth a chryf, wedi ei gwnio o'i amgylch.

Yn y plwyf bron bob amser ceid dynion ieuainc (morwyr yn gyffredin) yn gyfarwydd â chwarae "ffeils" (? *fives*). Gwneid dan barti o unrhyw nifer cyfartal. Teflid y bêl yn erbyn y pared cyfleus uchaf yn y lle gan gynrychiolydd un blaid, a phan adlamai ar y llawr tarewid hi'n ôl ar y pared gan gynrychiolydd agosaf y blaid. Wedi iddi adlamu drachefn derbyniai darawiad o'r ochr arall, ac felly yn y blaen hyd nes i gynrychiolydd plaid fethu yn ei amcan, a byddai hynny yn ennill i'r blaid wrthwynebol. Y mae'r chwarae wedi darford yn y pentref ers llawer blwyddyn.

/190/Dull arall o chwarae pêl - math ar *rounders* - oedd rhannu nifer o chwaraewyr yn ddwy blaid. Gwneid cylch a thu fewn iddo cymerai un blaid ei safle. Rhyw bellter cyfleus oddi wrth y cylch, gosodid cerrig ar y dde a'r aswy. Ac amryw latheni ymhellach, gosodid cerrig cyferbyniol i'r ddwy gyntaf. Yna teflid y bêl gan gynrychiolydd y blaid allanol i un o'r rhai tu mewn i'r cylch, yntau, os gallai, yn ei tharo ymhell fel y gallai gael y cyfleustra i redeg o'r cylch cyn belled ag y gallai gan gyfarfod ag un neu ychwaneg o'r pedair carreg nes ei orfodi i aros ar ei garreg, rhag iddo gael ei daro gan wrthwynebydd â'r bêl. Ni ellid ei daro os byddai ar un o'r pedair carreg. Teflid y bêl yn gyffelyb i'r nesaf yn y cylch, a rhedai hwnnw os byddai yn llwyddiannus, fel y cyntaf, a'r cyntaf yn nes i'r cylch. Ac felly y gwneid hyd oni byddai i hwnnw oedd yn y cylch fethu, neu i'r un fyddai yn rhedeg am ei garreg gael ei daro â'r bêl pan fyddai heb fod ar garreg. Pan fyddai cynrychiolydd y blaid wrthwynebol yn llwyddo i daro un a fyddai yn rhedeg, brysiat yr holl blaid i feddiannu y cylch cyn i ryw gynrychiolydd gwrthwynebol gael gafael yn y bêl i daro gwrthwynebydd. Dysgid chwaraewyr y bêl i fed yn fywiog, llygadog a sicr fel anelwyr. Y Pasg oedd adeg chwarae pêl. Ar adegau ffafriol yn yr haf, byddai ymdrochi yn dra phoblogaidd - yn afon Rhudd-gaer (yn agos i'r llamau) neu yn Ynys Llanddwyn.

Yr oedd chwarae botymau, "spondio," yn lled gyffredin ymysg y bechgyn. Y modd i ennill botwm oedd fel hyn. Dechreuid drwy i un daro carreg lefn ym mhared adeilad â'r "sponder" haearn neu bres. Tarawai bachgen arall yn gyffelyb gan geisio cyfeirio ei fotwm i ddisgyn yn ddigon agos i'r botwm cyntaf fel y gallai y tarawydd orchuddio y ddau â'i rychwant, neu fesur llai. Os methai, gallai y trydydd, neu unrhyw nifer, daro y garreg. Os methai'r cwbl, codai y cyntaf ei "sponder" a thrawai y garreg i geisio gan y "sponder" ddisgyn yn ddigon agos i fotwm chwaraewr. Os byddai yn llwyddiannus byddai yn derbyn botwm gan ei gyfaill, a chai gyfleustra i ennill oddi ar un arall; ond os methai, gadawai ei "sponder" ar lawr, fel y gallai yr un a gollasai gael cyfleustra i ennill ei fotwm yn ôl.

Hwyl fawr ymysg bechgyn y pentref lai na chanrif yn ôl oedd ymladd ceiliogod. Wedi trin sbardunau y ceiliog â darn o wydr, cuddiai y bachgen ei geiliog yn ei gesail dan ei gôt ac âi gyda'r wawr i rhyw lecyn anghysbell lle y cyfarfyddai dri bachgen

arall, pob un a'i geiliog. Yna gosodid dau o'r ceiliogod i ymladd; wedyn y ddau arall, ac i ddiweddu, y ddau enillydd i ymladd â'i gilydd am y fuddugoliaeth derfynol.

Dyma un digwyddiad a fu yn Niwbwrch oddeutu 1800: Am gymryd darn o bren, dwy lath wrth un lath mewn maint, o lan y môr, chwipiwyd y troseddwr - yn noeth o'i wasg i fyny a'i freichiau ar led yn rhwym wrth ben ôl trol, drwy bedair heol y pentref. *Gorfordid* pawb i ddod i'r drws i weled y fflangellu er mwyn creu ofn rhag lladrata./191/